## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain prosiect ymchwil diogel a moesegol mewn maes ymarfer, gan ddefnyddio sgiliau casglu, dadansoddi a gwerthuso data. Rhaid i chi allu cynllunio'r gwaith ymchwil sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect, casglu'r canfyddiadau a'u cyflwyno mewn fformat sydd fwyaf addas ar gyfer y pwrpas a'r gynulleidfa darged.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi’r angen am yr ymchwil neu’r pynciau
2. diffinio cwestiynau ymchwil clir a pherthnasol yn ogystal â chanlyniadau
3. adolygu gwybodaeth ac ymchwil presennol a nodi bylchau mewn gwybodaeth
4. cynllunio a pharatoi methodolegau a dyluniadau ymchwil ar gyfer y canlyniadau a’r cynulleidfaoedd targed
5. dewis dulliau ymchwil a’r mathau o ddata i’w cynhyrchu
6. cynllunio a pharatoi ar gyfer casglu a dadansoddi data
7. defnyddio dulliau cynhwysol a hygyrch i gynllunio a pharatoi i gynnwys cyfranogwyr
8. hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau mewn perthynas â dylunio ymchwil a chynrychioli cyfranogwyr
9. cytuno ar faint y samplau a chynlluniau wrth gefn ar gyfer nifer isel o ymatebion a rhwystrau posibl
10. diffinio a threfnu camau allweddol, tasgau, adnoddau, lleoliadau ac amserlenni ar gyfer yr ymchwil
11. gwneud yn siŵr bod y cynlluniau ymchwil yn cadw at safonau moesegol ac yn sicrhau cyfrinachedd
12. cytuno ag eraill ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am gynnydd
13. gosod meini prawf a dulliau i werthuso llwyddiant yr ymchwil
14. cael caniatâd pawb sy’n cymryd rhan yn yr ymchwil
15. casglu a threfnu data gan ddefnyddio’r dulliau ymchwil a ddewiswyd
16. monitro’r gwaith o roi arferion ymchwil diogel a moesegol mewn lle
17. monitro faint o wybodaeth sy’n cael ei chasglu o ffynonellau penodol
18. strwythuro, delweddu a dadansoddi data
19. adnabod patrymau, themâu, perthnasoedd a gwybodaeth allweddol o ddata
20. dehongli canfyddiadau mewn perthynas â chanlyniadau a chwestiynau ymchwil
21. cyflwyno’r canfyddiadau a chefnogi casgliadau mewn fformatau sy’n cyd-fynd â’r canlyniadau a’r cynulleidfaoedd targed
22. defnyddio ystod o wahanol ddyfeisiau ac adnoddau digidol ar gyfer ymchwil diogel a moesegol
23. defnyddio canfyddiadau ymchwil, gan ddefnyddio dulliau addas
24. gwerthuso prosesau’r gwaith ymchwil yn ogystal â’r canlyniadau
25. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain prosiect

ymchwil
26. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain prosiect ymchwil

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd diffinio cwestiynau ymchwil clir a pherthnasol yn ogystal â chanlyniadau
2. sut mae cael gafael ar ymchwil sy'n bodoli'n barod ac ymchwil cyfredol am bwnc y prosiect, a sut mae mynd ati i'w hadolygu
3. sut mae gwerthuso pa mor ddilys a dibynadwy yw'r gwaith ymchwil presennol
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol o ran cymorth ar ddyluniad, methodoleg a chanlyniadau'r ymchwil
5. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddyluniad, methodoleg a chanlyniadau'r ymchwil
6. heriau wrth ymgysylltu â chyfranogwyr a'u cynnwys mewn gwaith ymchwil
7. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn prosiect ymchwil diogel a moesegol
8. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth arwain prosiect ymchwil
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod prosiect ymchwil
10. moeseg ymgymryd â gwaith ymchwil, gan gynnwys caniatâd a chyfrinachedd
11. gwahanol ddulliau ymchwil a'r mathau o ddata sy'n cael eu cynhyrchu ganddynt
12. sut mae gwerthuso tueddiadau gwahanol ddulliau ymchwil a'u goresgyn
13. gwahaniaethau rhwng ymchwil sylfaenol ac eilaidd
14. y gwahaniaethau rhwng methodolegau ansoddol a meintiol
15. dulliau casglu, delweddu, cyfuno a dadansoddi data
16. sut mae gwahaniaethu rhwng ffeithiau a dehongliadau
17. sut mae datblygu adnoddau dadansoddi data
18. pwysigrwydd delweddu data a nodi patrymau, perthnasoedd a gwybodaeth allweddol
19. sut mae cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n gynhwysol ac yn ystyrlon i'r gynulleidfa sy'n ei derbyn
20. sut a pham y dylid gwerthuso llwyddiant ymchwil
21. sut y gall proses a chanfyddiadau'r ymchwil wella gwybodaeth bersonol, broffesiynol a sefydliadol
22. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain ymchwil diogel a moesegol
23. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain prosiect ymchwil

24. theorïau sy'n berthnasol i arwain prosiect ymchwil
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain prosiect ymchwil
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain prosiect ymchwil
27. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain prosiect ymchwil, a sut i fynd i'r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu o ran arwain prosiect ymchwil

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Arwain prosiect ymchwil

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD424 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain Prosiect Ymchwil, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |